TIRLUN

## DEUNYDDIAU ATEGOL

# MORFEYDD HELI YSBRYDOLEDIG

Mae'r dysgwyr yn ystyried y rhesymau dros werthfawrogi natur ac yn archwilio i ba mor hir mae bodau dynol wedi bod ar y Ddaear. Maent yn dysgu am forfeydd heli ar Benrhyn Gŵyr ac yn ymchwilio i ddarganfod mwy amdanynt. Mae dysgwyr yn archwilio'r morfa heli newydd yng Nghwm lorwg ac yn rhestru'r rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion sydd i'w cael yno. Maen nhw'n ymchwilio i un o'r anifeiliaid ac yn gwneud 'cerdyn ffeithiau' ar gyfer dysgwyr iau, sy'n sôn am yr anifail hwn. Mae dysgwyr yn ymchwilio i sinciau carbon a'r rôl mae morfeydd heli yn ei chwarae ac yn ymchwilio i sut mae morfeydd heli yn newid dros amser. Maent yn archwilio sut mae morfeydd heli yn ysbrydoli pobl ac yn ystyried sut mae artistiaid a beirdd wedi creu gwaith sy'n seiliedig ar forfeydd heli. Yn olaf, maent yn ysgrifennu cerdd am y morfeydd heli ar Benrhyn Gŵyr.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd Dysgu a Phrofiad a archwiliwyd:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.

Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW MORFEYDD HELI?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried y rhesymau dros werthfawrogi byd natur ac yn archwilio i ba mor hir mae bodau dynol wedi bod ar y Ddaear, yn y dasg hon. Byddant yn dysgu am forfeydd heli ar Benrhyn Gŵyr ac yn ymchwilio i ddarganfod mwy amdanynt.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y dyfyniad a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'n ei olygu wrth hyn, yn eich barn chi?
- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag ef? Pam?
- Beth ydych chi'n ei hoffi am natur? Pam?
- Beth allech chi ei wneud i warchod natur? Sut allech chi wneud hyn?

### Sgriniau 4-5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y wybodaeth am y Ddaear ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint o'r 100m hwnnw ydych chi'n meddwl sy'n cynrychioli'r amser mae bodau dynol wedi bod ar y Ddaear?
- Pa wybodaeth fyddai ei hangen arnoch i weithio allan hyn?
- Sut allech chi ddarganfod y wybodaeth honno?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r wybodaeth? Pa gyfrifiadau fyddwch chi'n eu gwneud?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y cyfrifiad a darllen y casgliad.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo ynghylch: Llanrhidian Salt Marsh, Gower, Wales a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddech chi'n disgrifio'r hyn a welsoch yn y fideo? Pa fanylion ydych chi'n sylwi arnynt?
- Ydych chi erioed wedi bod yn unrhyw le fel hyn - lle nad oes dim a wnaed gan fodau dynol yn y golwg? Ble? Pryd?
- Os ydych chi, sut y gwnaeth i chi deimlo?
- Os nad ydych chi, sut gwnaeth gwylio'r fideo wneud i chi deimlo?

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r geiriau a ddarperir i gwblhau'r brawddegau ar y sgrîn, gan wneud ymchwil os oes angen.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio i nodweddion allweddol morfeydd heli ac ychwanegu'r rhain at y map meddwl a ddarperir.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr agor Google Earth (Saesneg yn unig), dod o hyd i Dirwedd Cenedlaethol Gŵyr a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mha rannau o Benrhyn Gŵyr y mae morfeydd heli, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Eglurwch eich rhesymu, gan gyfeirio at nodweddion allweddol morfeydd heli.
- Sut allech chi wirio i weld a ydych yn gywir?
- Disgrifiwch y daith o'ch ysgol i'r morfeydd heli. Pa lwybr fyddech chi'n ei gymryd? Pa mor hir y byddai'n ei gymryd i chi wneud y daith?

TASG 2

# PAM FOD MORFEYDD HELI YN BWYSIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio'r morfa heli newydd yng Nghwm Iorwg ac yn rhestru'r rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion sydd i'w cael yno. Maen nhw'n ymchwilio i un o'r anifeiliaid ac yn gwneud 'cerdyn ffeithiau' ar gyfer dysgwyr iau, sy'n son amdano. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i sinciau carbon a'r rôl mae morfeydd heli yn ei chwarae ac yn ymchwilio sut mae morfeydd heli yn newid dros amser.

## Sgrîn 3

I ddechrau, gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo am y morfa heli newydd yng Nghwm Iorwg, Gŵyr The new saltmarsh at Cwm Ivy, Gower.

Gwahoddwch nhw i edrych ar yr awyrluniau ar y blog Gower Wildlife: Cwm Ivy Marsh in flood (Saesneg yn unig) ac i weithio gyda phartner i gwblhau'r brawddegau ar y sgrîn.

Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu brawddegau gyda phâr arall o ddysgwyr ac ystyried a wnaethon nhw feddwl am yr un pethau a sylwi ar yr un pethau.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo The new saltmarsh at Cwm Ivy, Gower eto, ac yna i ymweld â Cwm Ivy ar arfordir Gogledd Gŵyr - Cymru.

Gwahoddwch nhw i restru'r rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion sydd i'w cael yng Nghwm Iorwg.

## Sgriniau 5-6

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddant yn defnyddio canfyddiadau ymchwil i wneud 'cerdyn ffeithiau' ar gyfer dysgwyr iau am anifail sy'n byw yng Nghwm Iorwg. Gofynnwch iddynt ddefnyddio'r cwestiynau yn y grid CwAMFf a ddarperir i'w helpu gyda'u hymchwil.

## Sgriniau 7-8

Cyn i'r dysgwyr wneud eu 'cerdyn ffeithiau', gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai yw'r ffeithiau mwyaf diddorol i chi eu darganfod? Pam?
- Sut y gallwch chi ddangos y ffeithiau hyn yn glir?
- Sut allech chi newid eich iaith ar gyfer dysgwyr iau? Sut y gallai hyn eu helpu?
- Pa ddelwedd(au) fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud eu 'cerdyn ffeithiau', ei rannu â dysgwyr iau a derbyn adborth.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo ynghylch sinciau carbon - What are carbon sinks? - Sustainability for all a thrafod y cwestiynau canlynol.

## Sgrîn 9

Cyflwynir Hari ar y sgrîn hon, sef llygoden sydd eisiau syrffio. Mae Hari yn gofyn i'r dysgwyr ddylunio bwrdd syrffio iddo ac yn cynnig rhai awgrymiadau o ran yr hyn sydd ei angen.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw sinciau carbon?
- Pam mae sinciau carbon yn bwysig?
- Pa sinciau carbon naturiol a gyflwynir yn y fideo?

Gwahoddwch nhw i edrych ar yr atebion a ddarperir, yn dilyn eu trafodaethau.

## Sgriniau 10-11

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y wybodaeth am forfeydd heli ac yna agor Google Earth (Saesneg yn unig), canfod lleoliad y morfeydd heli ar arfordir gogleddol Gŵyr a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae lluniau o'r morfeydd heli yn dangos newid dros amser?
- Beth sydd wedi achosi'r newidiadau hyn?
- Sut olwg fydd ar y morfeydd heli ymhen 15 mlynedd arall, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r blychau i feddwl am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ddelwedd yn 2005 a'r ddelwedd ddiweddaraf ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl sy'n achosi unrhyw newidiadau rydych chi wedi sylwi arnyn nhw?
- Pa mor bell yn ôl mewn amser allwch chi fynd? Pam ydych chi'n meddwl na allwch chi fynd ymhellach?

## Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr erthygl: Climate change: 'Sleepwalking into oblivion' coastal erosion warning (Saesneg yn unig) a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei weld yn y ffotograff?
- Sut y gallai erydu arfordirol fod yn broblem?
- Sut fyddech chi'n teimlo am erydu arfordirol, pe byddai eich cartref ar ben clogwyn?
- Gall ymchwyddiadau yn lefel y môr achosi llifogydd. Ym mhle ydych chi wedi sylwi ar lifogydd a achoswyd gan y môr?
- Sut ydych chi'n meddwl mae morfeydd heli yn lleihau effeithiau:
    - erydiad arfordirol
    - llifogydd oherwydd ymchwyddiadau yn lefel y môr pan fo storm?

TASG 3

# SUT MAE MORFEYDD HELI YN YSBRYDOLI POBL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio sut mae morfeydd heli yn ysbrydoli pobl ac yn ystyried sut mae artistiaid a beirdd wedi creu gwaith yn seiliedig ar forfeydd heli, yn y dasg hon. Yn olaf, byddant yn ysgrifennu cerdd am y morfeydd heli ym Mhenrhyn Gŵyr.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut mae morfeydd heli yn ein hysbrydoli drwy glicio ar bob cymeriad a thrafod eu barn wrth iddi ymddangos ar y sgrîn.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un o'r dysgwyr hyn ydych chi'n cytuno fwyaf ag ef? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa sylw arall allech chi ei ychwanegu at y rhain, ynglŷn â sut y gall morfeydd heli ein hysbrydoli?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar waith celf (Saesneg yn unig) a ysbrydolwyd gan forfeydd heli a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o waith celf sydd orau gennych chi? Pam?
- Pa waith celf ydych chi'n ei hoffi orau? Pam?
- Sut mae gweithiau celf sy'n darlunio morfeydd heli yn gwneud i chi deimlo?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i chwilio ar-lein a dewis eu hoff waith celf, gan feddwl am y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa eiriau neu ymadroddion allech chi eu defnyddio i ddisgrifio eich hoff waith celf i eraill?
- Sut allech chi egluro wrth eraill pam mai dyma yw eich ffefryn?

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y gerdd a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd eich ymateb cyntaf i'r gerdd? Pam ydych chi'n meddwl y gwnaethoch ymateb fel hyn?
- Am beth mae'r gerdd yn son? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut y byddech chi'n disgrifio'r gerdd i rywun sydd erioed wedi ei darllen?
- Pa emosiynau ydych chi'n eu teimlo wrth ddarllen y gerdd?
- Beth mae'r bardd yn ei weld a'i glywed?
- Sut mae'r gerdd yn eich ysbrydoli?

## Sgriniau 7-8

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ysgrifennu cerdd am y morfeydd heli. Byddant yn mynd allan i'r awyr agored i arsylwi ar fywyd a natur, yn nodi rhai geiriau ac ymadroddion ac yn tynnu lluniau.

Gwahoddwch y dysgwyr i fynd allan i'r awyr agored a chasglu syniadau ar gyfer eu cerdd.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol ac yna ddefnyddio eu nodiadau a'u lluniau o'r awyr agored i ysgrifennu eu cerdd.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n mynd ati i ysgrifennu eich cerdd? Pam ei gwneud fel hyn?
- Pa nodweddion barddoniaeth fyddwch chi'n eu defnyddio wrth ysgrifennu? Pam defnyddio'r rhain?
- Sut byddwch chi'n dewis ac yn defnyddio geirfa briodol? Pam gwneud fel hyn?
- Sut y byddwch yn drafftio a chyflwyno eich cerdd? Pam gwneud fel hyn?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio un neu fwy o'r ymadroddion ar ddechrau eu brawddegau llawn, wrth fyfyrio ar y dasg, ac yna'u rhannu â'r dosbarth.